Comisiwn Gwella Iechyd

Adolygiad o reolaeth glinigol

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Chwefror 2004

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac ar gael gan:

Ar-lein: www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO, Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion dros y ffacs: 0870 600 5533
E-bost : book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau'r TSO
123 Kingsway, Llundain, WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Gwerthwyr Achrededig TSO
(gweler y Tudalennau Melyn)

a thrwy lyfrwerthwyr da

ISBN 0-11-703331-6

9 780117 033313

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw casgliadau'r Comisiwn ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru?	5
Beth sydd angen i'r ymddiriedolaeth ei wneud i wella'i rheolaeth glinigol?	7
Profiad y cleifion	8
Cyfranogiad y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y gofalwyr a'r cyhoedd	11
Rheoli risg	13
Archwiliad clinigol	15
Effeithiolrwydd clinigol	18
Staffio a rheoli staff	20
Addysg, hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol parhaus	23
Defnyddio gwybodaeth	26
Capasiti strategol	29
Gwybodaeth bellach	32
Cydnabyddiaethau	34

© Comisiwn Gwella Iechyd 2004

Gellir atgynhyrchu eitemau'n rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod nad i'w gwerthu y gwneir hyn. Rhoddir y caniatâd i wneud hyn ar yr amod yr atgynhyrchir y deunydd yn gywir a nas defnyddir mewn dull difriol neu mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod y deunydd fel © 2004 Comisiwn Gwella Iechyd a dylid nodi'n benodol deitl y ddogfen.

Dylid anfon cais ysgrifenedig am atgynhyrchu at

Chief Executive, Commission for Health Improvement, 103-105 Bunhill Row, London EC1Y 8TG.

Mae cofnod catalog CIP i'r llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig.

Gwnaed cais am gofnod catalog CIP Llyfrgell y Gyngres.

Cyhoeddwyd yn gyntaf yn 2004

ISBN 0 11 703331 6

Cyflwyniad

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr ymddiriedolaeth) ar 1 Ebrill 1998 ar ôl cyfuno'r pedair ymddiriedolaeth ambiwlans yng Nghymru, ynghyd â'r gwasanaethau ambiwlans a ddarparwyd yn flaenorol gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cwmpasu ardal o 8,000 milltir sgwâr ac yn gwasanaethu poblogaeth frodorol o 2.9 miliwn o bobl mewn cymunedau amrywiol yn amrywio o ardaloedd trefol mawr fel Caerdydd ac Abertawe i gymunedau ynysig bach fel Powys ac Eryri. Mae harddwch y rhan fwyaf o'r ardal a'i arfordir poblogaidd yn denu nifer fawr o ymwelwyr tymhorol.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cyflogi tua 2,300 o aelodau o staff ac yn darparu: triniaeth a gofal brys cyn ysbyty; derbyniadau brys i gleifion a throsglwyddiadau rhwng ysbytai; gwasanaethau gofal claf; dulliau cludo mewn cerbydau ar wahân i ambiwlansiau; a gwasanaeth ymdrin â galwadau ar gyfer rhai meddygon teulu. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithredu o nifer fawr o adeiladau dan berchenogaeth ac adeiladau wedi'u prydlesu ledled Cymru. Ymhlith y rhain mae dros 90 o orsafoedd ambiwlans, pedair canolfan reoli, coleg hyfforddiant ambiwlans cenedlaethol a chanolfannau hyfforddi rhanbarthol cysylltiedig, pencadlys yr ymddiriedolaeth sy'n cynnwys tair swyddfa ranbarthol a phum gweithdy cynnal a chadw cerbydau.

Mae'n rhannu ei gweithrediadau o ddydd i ddydd yn dri rhanbarth daearyddol. Mae'r gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, a'r de yn defnyddio tua 223 o gerbydau argyfwng, 254 o gerbydau gwasanaethau gofal claf a 109 o gerbydau arbenigol eraill sy'n cynnwys hofrenyddion, cerbydau ymateb cyflym a cherbydau rheoli.

O ddydd i ddydd mae'r ymddiriedolaeth yn rheoli'r broses o ddarparu gofal cyn ysbyty o fewn fframwaith a gaiff ei gymhlethu gan ei faint, y dirwedd amrywiol, rhwydwaith rheilffordd a ffordd anghyfleus, poblogaeth wasgaredig a theithiau hir i rai ysbytai.

Bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth weithio'n galed i gyflwyno diwylliant gwasanaethau ambiwlans i Gymru gyfan. Bu'n rhaid iddi ddelio â rhai rhwystrau i newid, gan gynnwys canfyddiadau staff, strwythurau rheoli blaenorol, trefniadau gweithio gwahanol gan wahanol staff a rhywfaint o wrthwynebiad lleol i resymoliad, a'i gwnaeth yn anodd i gyflawni darbodusrwydd maint.

Bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ymdopi â chymhlethdodau'r broses gyfuno a'r anawsterau gwirioneddol a gafwyd o ran etifeddu dyled ariannol, ystad, cerbydau ac offer gwael, hen seilwaith cyfathrebu radio a thechnoleg gwybodaeth annigonol.

Yn ystod dyddiau cynnar yr ymddiriedolaeth, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i ailosod cerbydau ac offer yn hytrach na defnyddio technoleg gwybodaeth newydd. Gwnaed y penderfyniadau hyn drwy roi ystyriaeth i gleifion a staff. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth bellach yn canfod bod angen gwybodaeth o ansawdd da arni er mwyn datblygu rheolaeth glinigol ond heb y seilwaith technoleg gwybodaeth llawn i ategu hyn.

Creodd y trefniadau ariannu o dan strwythur yr hen awdurdod iechyd ddull anghyson o ddosbarthu adnoddau a'i gwnaeth yn anodd i'r ymddiriedolaeth ddarparu gwasanaeth teg. Dylai ffurfio Comisiwn Iechyd Cymru helpu i oresgyn y broblem hon, drwy ailddosbarthu adnoddau mewn ffordd deg ar draws cymunedau gwledig a threfol.

Cred yr ymddiriedolaeth fod ei chyfyngiadau ariannol yn rhwystro ei gallu i weithredu rhaglen ddatblygu i gyflawni gwasanaeth â chanolbwynt clinigol.

Cyflwyniad *parhad*

Bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddelio â'r ansicrwydd o ail strwythuro a'r cydberthnasau newydd a ddaeth yn sgìl ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ail-lunio'r GIG yng Nghymru a oedd yn cynnwys cyflwyno byrddau iechyd lleol ac, yn ddiweddar, trefniadau comisiynu damweiniau ac achosion brys newydd yr ymddiriedolaeth, y mae Comisiwn Iechyd Cymru yn ymdrin â hwy.

Mae'r adroddiad hwn gan y Comisiwn Gwella Iechyd (y Comisiwn) yn rhoi asesiad annibynnol o'r ffordd y mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau safonau gofal uchel a beth y mae'n ei wneud i wella ansawdd gwasanaethau yn barhaus.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, edrychodd y Comisiwn ar reolaeth glinigol o fewn y gwasanaethau argyfwng, brys a gofal claf ar draws yr ymddiriedolaeth. Derbyniwyd llythyron a sylwadau gan dros 180 o sefydliadau rhan ddeiliaid, cymunedol a gwirfoddol statudol, staff, cleifion a gofalwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda 175 o staff a gwnaed 30 set o arsylwadau ar safleoedd gwahanol ar draws yr ymddiriedolaeth. Mae'r adolygiad yn rhan o raglen dreigl o adolygiadau o reolaeth glinigol o fewn sefydliadau GIG yng Nghymru a Lloegr.

Rheolaeth glinigol yw'r system o gamau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y GIG i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal o'r ansawdd gorau posibl, gan sicrhau safonau uchel, diogelwch a gwelliant o fewn gwasanaethau i gleifion.

Beth yw bwriad yr adolygiad?
Bwriad adolygiadau rheolaeth glinigol y Comisiwn yw ateb tri chwestiwn:

1 Sut brofiad yw bod yn glaf yma?

2 Pa mor dda yw systemau diogelu a gwella ansawdd gofal yr ymddiriedolaeth?

3 Beth yw capasiti'r sefydliad mewn perthynas â gwella profiad y claf?

Beth a gwmpesir gan adolygiad y Comisiwn?
Mae adolygiad y Comisiwn yn asesu saith maes o reolaeth glinigol. Y meysydd yw:

1 cyfranogiad y cleifion

2 rheoli risg

3 archwiliad clinigol

4 staffio a rheoli staff

5 addysg a hyfforddiant

6 effeithiolrwydd clinigol

7 defnyddio gwybodaeth

Mae adolygiad y Comisiwn hefyd yn disgrifio dau faes arall:

1 profiad y cleifion

2 capasiti strategol yr ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu a gweithredu rheolaeth glinigol

Esboniad o asesiadau'r Comisiwn
Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae adolygwyr y Comisiwn yn asesu pob elfen o reolaeth glinigol yn erbyn graddfa pedwar pwynt:

i Ychydig o gynnydd neu dim cynnydd o gwbl ar lefelau strategol a chynllunio neu ar lefel weithredol.

ii a) Cynnydd a datblygiad gwerth chweil ar lefel strategol a chynllunio ond nid ar lefel weithredol, NEU

b) Cynnydd a datblygiad gwerth chweil ar lefel weithredol ond nid ar lefel strategol a chynllunio, NEU

c) Cynnydd a datblygiad gwerth chweil ar lefel strategol a chynllunio ac ar lefel weithredol, ond nid ar draws y sefydliad cyfan.

iii Gafael strategol dda a gweithrediad sylweddol. Aliniad o ran gweithgaredd a datblygiad ar draws y lefelau strategol a chynllunio a lefel weithredol yr ymddiriedolaeth.

iv Rhagoriaeth – gweithgaredd a datblygiad cydlynus ar draws y sefydliad a chyda sefydliadau partner yn yr economi iechyd lleol sy'n arwain yn eglur at welliant. Eglurder ynghylch cam nesaf y broses o ddatblygu rheolaeth glinigol.

Beth yw casgliadau'r Comisiwn ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru?

Beth oedd yr argraff gyffredinol o'r ymddiriedolaeth?
O ran yr ystod sylweddol o faterion y bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ymdrin â hwy ers ei dechreuad yn 1998 ynghyd â'u cymhlethdod, mae'n glod i'r ymddiriedolaeth ei bod wedi dechrau datblygu'r agenda rheolaeth glinigol dros y 28 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid yw llawer o feysydd rheolaeth glinigol wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd ac nid ydynt wedi'u hintegreiddio o fewn gweithgareddau prif ffrwd yr ymddiriedolaeth.

Yn ystod ei blynyddoedd cynnar, canolbwyntiodd yr ymddiriedolaeth yn sylweddol ar sicrhau llwyddiant y broses gyfuno. Mae'r ymddiriedolaeth bellach wedi cyrraedd y cam datblygu lle y mae'n rhaid iddi fuddsoddi ymhellach yn y broses o ddatblygu'r agenda ansawdd clinigol.

Ceir rhai enghreifftiau da o waith o ansawdd uchel sy'n cael ei gyflawni er mwyn ategu'r broses o ddatblygu rheolaeth glinigol, sydd wedi cynnwys llawer o unigolion ledled yr ymddiriedolaeth. Bu gwaith y fintai o unigolion yn y strwythur gweithrediadau clinigol yn allweddol i hyn. Mae angen i'r mentrau hyn gael eu hintegreiddio a'u gwasgaru'n llawer mwy eang ar draws y sefydliad. Mae gan yr ymddiriedolaeth nifer o staff medrus a brwdfrydig a fyddai, pe caent eu hawdurdodi ymhellach, yn gallu creu symudiadau diwylliannol pellach a gwneud gwelliannau sylweddol yn y broses o ddarparu gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel i'r rhai a gaiff eu gwasanaethu gan yr ymddiriedolaeth.

Beth yw casgliadau'r Comisiwn yn seiliedig ar ei adolygiad o'r ymddiriedolaeth?
Mae angen dileu'r rhwystrau i'r broses o integreiddio rheolaeth glinigol yn llawn er mwyn i'r ymddiriedolaeth ddatblygu ymhellach.

Mae angen adolygu rhai agweddau ar y strwythurau rheoli er mwyn i reolaeth glinigol allu datblygu. Dylid ail gyflunio'r broses o ddatblygu set gyfochrog o strwythurau ar gyfer rheolaeth glinigol yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn i reolaeth glinigol gael ei hintegreiddio'n llawn o fewn gweithgareddau prif ffrwd yr ymddiriedolaeth.

Er bod yr ymddiriedolaeth wedi amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer unigolion a phwyllgorau yn nogfennau allweddol yr ymddiriedolaeth, noda staff fod y rhain yn aneglur a dengys tystiolaeth y Comisiwn nad oes pawb yn eu deall. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd ac anghysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae diffyg ymagwedd strategol sylfaenol i reolaeth glinigol, ynghyd â gwybodaeth o ansawdd gwael a dull gwael o fonitro cynnydd, yn rhwystro proses gynllunio effeithiol ac yn golygu bod yr ymddiriedolaeth yn agored i risg sylweddol a'r posibilrwydd o roi gofal o ansawdd gwael i gleifion. Hysbysodd yr ymddiriedolaeth y Comisiwn ei bod wrthi'n adolygu ei chynllun strategol.

Mae parhau i symud tuag at ddiwylliant agored, cyfiawn a theg yn her sylweddol i fwrdd yr ymddiriedolaeth.

Beth yw casgliadau'r Comisiwn ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru?
parhad

Pa feysydd o arfer nodedig a nodwyd?
Mae'r ymddiriedolaeth wedi gweithio'n dda o fewn strwythur newydd GIG Cymru i sicrhau bod sefydliadau partner yn gysylltiedig â'i chynadleddau rheolaeth glinigol.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi datblygu cyrsiau gradd israddedig ac ôl-raddedig mewn gofal cyn ysbyty ac ymarferwyr para meddygol.

Mae'r ymagwedd systematig tuag at gynlluniau peilot, a fabwysiadwyd gan yr ymddiriedolaeth i werthuso modelau gofal ar gyfer darparu triniaeth thrombolytig cyn ysbyty i gleifion clefyd coronaidd y galon, yn nodedig.

Mae'r broses o ddatblygu cynlluniau ymatebwr cyntaf bellach yn gyffredin. Fodd bynnag, bu'r ymddiriedolaeth yn llwyddiannus wrth greu cynlluniau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau tân yn ogystal â meddygon teulu, sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr cymunedol.

Mae gan yr ymddiriedolaeth wasanaeth cymorth i gydweithwyr, a gaiff ei redeg gan staff i helpu a chefnogi cyfoedion.

Beth, os o gwbl, a ganfu'r Comisiwn a all fod yn wers i weddill y GIG?
Mae'r ymddiriedolaeth wedi lleihau'r angen i staff deithio pellteroedd hir drwy ddefnyddio fideo gynadledda.

Mae gan yr ymddiriedolaeth swyddogaeth ymchwil a datblygu, a elwir yn uned ymchwil cyn ysbyty, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a fu'n llwyddiannus wrth ennill proffil uchel yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Beth yw'r meysydd gweithredu allweddol y mae angen i'r ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella ei systemau rheolaeth glinigol?

Mae'r Comisiwn yn disgwyl i'r ymddiriedolaeth adolygu'r holl agweddau ar yr adroddiad hwn. Amlygwn yma feysydd lle y mae angen gweithredu fel mater o bwys neu ar frys.

- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth gymryd camau i fynd i'r afael â gweledigaeth ehangach o reolaeth glinigol a'i gweithredu ar draws y sefydliad. Mae angen i'r ymddiriedolaeth nodi ei chyfeiriad strategol ar gyfer rheolaeth glinigol a dylai hyn gael ei ategu gan strategaethau ar gyfer pob maes rheolaeth glinigol. Dylai hyn gynnwys ymgynghori rheolaidd â staff o bob gradd, cleifion a phartneriaid er mwyn sicrhau y caiff rheolaeth glinigol ei hintegreiddio'n llawn ar draws y sefydliad.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ail gyflunio ei phwyllgorau a'i strwythurau rheolaeth glinigol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r strwythur rheoli gweithredol gan sicrhau eglurdeb o ran atebolrwydd ar gyfer rheolaeth glinigol ar bob lefel o'r sefydliad.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth sefydlu rhaglen addysg i helpu staff o lefel bwrdd i lawr i sicrhau bod rheolaeth glinigol yn cael ei hintegreiddio a'i deall yn llawn ar draws yr ymddiriedolaeth.
- Dylai'r ymddiriedolaeth adolygu faint o amser a neilltuir ar gyfer arweinyddiaeth glinigol ar lefel strategol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth gymryd camau brys i ehangu ei hymagwedd strategol tuag at reoli risgiau clinigol, gan sicrhau bod y gofrestr risgiau yn nodi'r risgiau clinigol gwirioneddol sy'n rhan annatod o'i gweithrediadau dyddiol a'u bod yn cael eu monitro'n drwyadl.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth gynyddu ei defnydd o wybodaeth glinigol a gwybodaeth nad yw'n glinigol a datblygu dull cofnodi rheolaidd ac eithriadol er mwyn sicrhau y caiff polisïau eu gweithredu ac y ceir newidiadau hyddysg.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth hybu natur agored lle y mae gweithgareddau rheolaeth glinigol yn arwain at fonitro, lledaenu a dysgu drwy welliant mesuradwy.

Sut brofiad yw bod yn glaf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru?

Yn yr adran hon nodwn beth a arsylwyd gennym a beth a ddywedodd cleifion, am eu profiadau, drwy arolygon neu'n uniongyrchol wrth y Comisiwn. Edrychwn hefyd ar yr hyn y mae data'r ymddiriedolaeth yn gallu dweud wrth gleifion am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Gall llawer o bethau effeithio ar brofiadau cleifion o'u gwasanaeth GIG lleol. Gall y rhain gynnwys canlyniad eu triniaeth, a oedd y cerbydau a'r cyfleusterau o ansawdd da, a ph'un a gafodd y cleifion a'u perthnasau neu eu gofalwyr eu trin â pharch.

A gaiff cleifion eu trin â pharch ac urddas?
Canfu'r Comisiwn ymagwedd ofalgar a chadarnhaol tuag at gleifion ar bob lefel o'r sefydliad. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion a gofalwyr am y ffordd y maent yn derbyn gofal gan staff o'r gwasanaeth meddygol brys a'r gwasanaeth gofal claf. Cafwyd sylwadau ffafriol gan lawer o sefydliadau partner hefyd am y ffordd y caiff cleifion eu trin.

Beth a ganfu'r Comisiwn am y ffordd y caiff gwasanaethau'r ymddiriedolaeth eu trefnu?
Mae'r ymddiriedolaeth yn adolygu ei phroses o ddarparu gofal cyn ysbyty, sy'n cynnwys y gwasanaeth meddygol brys a'r gwasanaeth gofal claf.

Mae nifer o raddau newydd o staff yn ymddangos o'r waelodlin bresennol o gynorthwywyr gofal, technegwyr, para meddygon a gwasanaethau hofrennydd. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft: y staff cerbydau haen ganolraddol sy'n delio â throsglwyddiadau rhwng ysbytai ac sy'n darparu gwasanaeth ymatebwr cyntaf; y cerbydau ymateb cyflym sy'n ymateb i alwadau a allai fod â chanlyniadau angheuol; a'r broses o werthuso pum ymarferwr para meddygol sy'n cynnal asesiadau clinigol manwl er mwyn cyfeirio cleifion i ganolfannau triniaeth amgen. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu nifer o gynlluniau ymatebwr cyntaf ledled Cymru gan weithio mewn partneriaeth â'r heddlu a'r gwasanaethau tân, sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr cymunedol.

Mae gan y Comisiwn bryderon ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau lleoli i gefnogi anfonwyr sy'n penderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol i ddamwain. Daeth yr ystod o opsiynau lleoli yn fwy cymhleth ers i'r ymddiriedolaeth gyflwyno arferion gwaith newydd gyda sgiliau clinigol gwahanol ymhlith staff. Rhoddwyd enghreifftiau o rai arferion gwaith amhriodol i'r Comisiwn gan gynnwys: cynnal lefel y staff wrth gefn mewn ardaloedd trefol ar draul ardaloedd gwledig; criwiau technegol dwbl yn gweithio gyda'i gilydd; staff haen ganolraddol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i ymateb i alwadau 999; a methiant i leoli ymatebwyr cyntaf. Mae'r Comisiwn hefyd yn poeni na chaiff y broses o leoli staff ei monitro'n rheolaidd ar draws yr holl raddau o staff a'r mathau o alwadau.

A all cleifion ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn briodol?
Bu'r gwasanaeth gofal claf yn destun beirniadaeth yn ystod adolygiad y Comisiwn gan gleifion ac aelodau o staff ar bob lefel o'r sefydliad.

Ceir pryderon sy'n ymwneud â'r broses o reoli apwyntiadau cleifion allanol ac, yn arbennig, achosion o gyrraedd yn hwyr ar gyfer apwyntiadau a gorfod aros yn hir cyn mynd adref ar ôl apwyntiadau.

Nid yw cleifion yn deall y meini prawf newydd a weithredir gan ymddiriedolaethau ysbyty a chyn awdurdodau iechyd sy'n penderfynu a yw cleifion yn gymwys i gael gwasanaethau gofal. Roedd diffyg ymagwedd gyson tuag at y broses o gludo cadeiriau olwyn, fframiau cerdded ac eiddo personol hefyd yn destun pryder.

Sut brofiad yw bod yn glaf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? *parhad*

Mynegodd rai rheolwyr bryderon ynghylch y ffaith bod cerbydau brys yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer gwaith gofal claf arferol mewn rhai ardaloedd.

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol, wrth iddi gael ei chyflwyno'n raddol dros y ddwy flynedd nesaf, y bydd agenda'r ymddiriedolaeth ar gyfer gwelliant, drwy ei hadolygiad o'r gwasanaeth gofal claf, yn goresgyn rhai o'r problemau hyn.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn pryderu nad yw'r prosiect graddol ar gyfer gwasanaethau gofal claf a'r adolygiad o'r gwasanaeth meddygol brys wedi rhoi ystyriaeth lawn i effaith newidiadau cytundebol sydd ar ddod mewn rhannau eraill o'r GIG, er enghraifft effaith debygol y ffaith na fydd meddygon teulu bellach yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith, a fydd yn effeithio ar eu gwasanaethau.

Pa mor dda yw'r safonau o ran cerbydau a chyfleusterau?
Gwnaed buddsoddiad sylweddol yn y fflydoedd damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth gofal claf. Mae gan yr ymddiriedolaeth system rheoli fflydoedd sy'n caniatáu proses o olrhain amserlenni profion MOT a gwaith trwsio. Ceir rampiau ar lawer o gerbydau er mwyn lleihau achosion o ymdrin a chodi â llaw. Gwelodd y Comisiwn rhai cerbydau a oedd wedi cael eu haddasu i gludo cadeiriau olwyn, gwelyau ysbyty a deoryddion. Mae'r cerbydau, ar y cyfan, yn lân, yn daclus ac yn cynnwys adnoddau digonol. Mae cyflwyno lefelau staffio newydd ac felly argaeledd cynyddol personél mewn rhai ardaloedd wedi arwain at bryderon nad yw'r gwelliannau hyn wedi'u cydbwyso yn erbyn argaeledd cerbydau ac offer.

Ymwelodd y Comisiwn â gorsafoedd ambiwlans gwledig a threfol ledled Cymru yn cynnwys pob un o'r ystafelloedd rheoli, y coleg hyfforddi ambiwlansiau cenedlaethol a dwy o'i hysgolion hyfforddi rhanbarthol, pob un o'r pencadlysoedd rhanbarthol, pencadlys yr ymddiriedolaeth a rhai o'r adrannau damweiniau ac achosion brys ac adrannau cleifion allanol mewn ysbytai y caiff cleifion eu trosglwyddo iddynt. Mae adeiladau'r ymddiriedolaeth yn amrywio ac mae rhai yn darparu cyfleusterau pwrpasol tra bod eraill yn darparu amgylchedd gwaith gwael. Mae canlyniadau'r arolygiad iechyd a diogelwch ar ddod ac mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl y bydd yn rhaid iddi fynd i'r afael â nifer o faterion.

Beth a ddengys y ffigurau am berfformiad yr ymddiriedolaeth?
Dylid nodi bod yn rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyflawni safonau gwahanol o ran amseroedd ymateb i'r rhai sy'n ofynnol mewn ymddiriedolaethau yn Lloegr. Mae ystod y sefyllfaoedd clinigol a nodir fel rhai sydd angen ymateb categori A hefyd yn wahanol o dan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn 2002/2003, targed yr ymddiriedolaeth oedd cyrraedd 50% o alwadau categori A a allai fod yn angheuol o fewn wyth munud a 95% o'r holl alwadau o fewn 14, 18, a 21 munud yn ôl eu dosbarthiad gwasanaeth o ardaloedd trefol, gwledig neu â phoblogaeth wasgaredig. Ledled Cymru cyflawnodd ffigurau o 52% ac 89.1% yn y drefn honno. Dengys y ffigurau fod y targedau hyn wedi'u cyflawni er gwaethaf cynnydd o 9.3% mewn galwadau ledled Cymru o gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

Sut brofiad yw bod yn glaf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? *parhad*

Penderfynodd yr ymddiriedolaeth, yn anffurfiol, osod safon o 55% ar ei chyfer ei hun a dengys y ffigurau ar gyfer chwarter olaf 2002/2003 fod chwech allan o'r 22 o ardaloedd awdurdod unedol wedi cyflawni safon o 55% o fewn wyth munud gydag ystod cyffredinol rhwng 37.6% a 74.3%. Conwy, Wrecsam, Sir Ddinbych, Caerdydd, Sir y Fflint a Chasnewydd oedd yr ardaloedd hyn. Dengys cyfrifiad tebyg ar gyfer 95% o'r holl alwadau o fewn 14, 18 a 21 munud mai dim ond tair ardal, Conwy, Wrecsam a Sir Ddinbych, oll yng Ngogledd Cymru, a gyflawnodd y safonau, gyda'r ystod cyffredinol rhwng 78.1% a 97.8%.

Y nod cyfredol ar gyfer Cymru yw bod yn rhaid ymateb i 60% o alwadau categori A a allai fod yn angheuol o fewn wyth munud. Mae hwn yn gyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer mis Mawrth 2004 ac mae'n rhaid i 95% o'r holl alwadau gael eu hateb o fewn 14, 18, 21 munud yn ôl eu dosbarthiad gwasanaeth o ardaloedd trefol, gwledig neu â phoblogaeth wasgaredig.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r ymddiriedolaeth wedi gosod targed canran gwella perfformiad categori A ar gyfer pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod unedol yn seiliedig ar ganlyniad y llynedd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd o leiaf gwaelodlin 50% o ran perfformiad.

Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Galw Iechyd Cymru er mwyn trosglwyddo categorïau penodol o alwadau ond ni chytunwyd ar yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn eto.

Bu'r Comisiwn yn pryderu ynghylch y ffordd y caiff data ar amseroedd ymateb ei gasglu a'i reoli gan rai ymddiriedolaethau ambiwlans yn Lloegr. Dadansoddodd y Comisiwn y data a ddarparwyd gan ymddiriedolaethau yng Nghymru ac ni chanfu unrhyw dystiolaeth bod y data hwn wedi cael ei newid.

Yn wahanol i gategorïau eraill o alwadau mae'r ymddiriedolaeth wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau am deithiau brys gan feddygon teulu. Er hyn, nid yw wedi cyrraedd ei tharged o hyd, sef sicrhau nad yw 95% o'r holl deithiau brys yn cyrraedd dros 15 munud yn hwyrach na'r amser cyrraedd gofynnol. Yn 2002/2003 cyflawnodd darged o 78.8%.

Pa feysydd o brofiad y cleifion y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Dylai'r ymddiriedolaeth sicrhau bod cynlluniau digonol ar waith o fewn adolygiadau'r gwasanaeth gofal claf a'r gwasanaeth meddygol brys ar gyfer delio ag effaith newidiadau cytundebol sydd ar ddod mewn rhannau eraill o'r GIG.
- Dylai'r ymddiriedolaeth weithio gyda'i phartneriaid i weithredu'r agweddau ar ei hadolygiad gwasanaethau gofal claf a fydd yn hwyluso amseroedd gweithredu gwasanaethau gofal claf estynedig, gan leihau'r amser y mae'n rhaid i gleifion aros i gael eu cludo i ysbytai.
- Dylai'r ymddiriedolaeth sicrhau, wrth iddi gynyddu ei hystod o wasanaethau, ei bod yn darparu offer a cherbydau digonol i gynnal isafswm lefelau gwasanaeth diogel.
- Dylai'r ymddiriedolaeth ail astudio ei chynlluniau lleoli ym mhob maes er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad i wasanaethau ar gyfer pob claf.
- Dylai'r ymddiriedolaeth sicrhau bod arweiniad clir ar gael i staff mewn perthynas â lleoli pob gradd o staff yn briodol a dylid gwirio hyn drwy ddull monitro rheolaidd a monitro eithriadol.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer cyfranogiad y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y gofalwyr a'r cyhoedd?

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gall cleifion roi eu barn am eu gofal eu hunain a sut y gallant hwy a sefydliadau cleifion roi eu barn am y ffordd y darperir gwasanaethau.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Megis cychwyn y mae'r broses o ddatblygu strwythurau a phrosesau'r ymddiriedolaeth ar gyfer cyfranogiad y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y gofalwyr a'r cyhoedd. Rhoddir mwy o bwyslais ar y maes gwaith hwn.

Asesiad y Comisiwn = i

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Mae'r ymddiriedolaeth yn datblygu atebolrwydd a strwythurau ar gyfer cyfranogiad y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y gofalwyr a'r cyhoedd (PPI). Arweinydd y bwrdd ar gyfer PPI yw'r prif weithredwr sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i gynorthwy-ydd gweithredol. Nid yw'r atebolrwydd ar gyfer PPI yn rhan o strwythurau rhanbarthol.

Nid oes strwythur pwyllgor ffurfiol i ategu PPI ond mae'r ymddiriedolaeth yn diffinio cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgor profiad y cleifion. Mae'r bwrdd yn trafod PPI er y gwna hyn yn bennaf drwy fonitro cwynion a chanmoliaeth.

Mae gan yr ymddiriedolaeth fframwaith strategol ar gyfer PPI a memorandwm dealltwriaeth rhyngddi ei hun a Chymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

Mae Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru hefyd wedi sefydlu grŵp o blith pwyllgorau cysylltu cynghorau iechyd cymuned lleol ledled Cymru i drafod materion strategol gyda'r ymddiriedolaeth. Mae aelodau o'r grŵp hwn a chynghorau iechyd cymuned eraill yn mynychu cyfarfodydd bwrdd cyhoeddus yr ymddiriedolaeth.

Noda'r ymddiriedolaeth ei bod yn anelu at sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn ymwneud yn llawn â phenderfyniadau ynglŷn â darparu a chynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, canfu'r Comisiwn mai prin iawn yw cyfranogiad gwirioneddol y cleifion a'r cyhoedd ac nid yw'r Comisiwn yn glir ynghylch sut y mae'r ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflawni'r agenda newydd hon.

Mae gan yr ymddiriedolaeth bartneriaethau pwysig eraill drwy ei chynlluniau ymatebwr cyntaf, yr ambiwlansiau aer, achubiaeth awyr a môr, ac achubiaeth ar y mynyddoedd.

Caiff gwybodaeth fel yr adroddiad blynyddol, cofnodion bwrdd yr ymddiriedolaeth a rhai polisïau eu dosbarthu'n eang a'u cyhoeddi hefyd ar ei gwefan ac ar y fewnrwyd a gyflwynwyd yn ddiweddar. Cynhyrchir dogfennau cyhoeddus yn ddwyieithog yn unol â chynllun iaith Gymraeg yr ymddiriedolaeth.

Bu rhywfaint o fewnbwn gan PPI i'r broses o ddatblygu polisïau fel y côd ymddygiad, caniatâd, cydraddoldeb hiliol, rheoli cofnodion, cydnabod diwedd bywyd a diogelu plant.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer cyfranogiad y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y gofalwyr a'r cyhoedd? *parhad*

Yn ddiweddar, cyflwynodd yr ymddiriedolaeth gwrs sefydlu craidd sy'n delio â materion gofal cwsmeriaid. Fodd bynnag, nid ail ymdrinnir â'r materion hyn yn ystod hyfforddiant gloywi. Cyflawnir rhywfaint o waith monitro parhaus a thrylwyr o ran gwaith gofal cwsmeriaid mewn ystafelloedd rheoli ond prin yw'r dystiolaeth o systemau i asesu hyn yn y gwasanaeth meddygol brys neu'r gwasanaeth gofal claf.

Dywedodd aelodau o staff wrth y Comisiwn am lawer o weithgareddau y maent yn cyfrannu atynt yn lleol i ategu PPI ond ni chaiff y rhain eu trosglwyddo a'u cydlynu o reidrwydd fel rhan o ymagwedd PPI gyffredinol.

Mae gan yr ymddiriedolaeth gynllun iaith Gymraeg a rhai siaradwyr Cymraeg. Mae gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gael ar gyfer ieithoedd eraill mewn ystafelloedd rheoli ac yn y pencadlys. Mae gan staff gweithredol lyfr ymadroddion amlieithog mewn argyfwng.

Mae'r broses ar gael ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno cwyn neu wneud sylwadau am yr ymddiriedolaeth. Nodir bod nifer y cwynion yn gostwng ond nid yw'r ymddiriedolaeth yn cyrraedd ei thargedau datrys, ac nid yw'n glir sut y caiff cwynion dros y ffôn ac ar lafar eu cofnodi.

Prin yw'r dystiolaeth sydd gan yr ymddiriedolaeth ar welliannau o ganlyniad i weithgareddau PPI. Daw'r prif ffynhonnell gwybodaeth o gwynion. Trafodir canlyniadau o fewn pwyllgorau'r ymddiriedolaeth ond ni chaiff y rhain eu trosglwyddo'n glir i staff. Dywedodd staff y byddent yn dymuno gweld y llythyr terfynol a anfonir at achwynyddion gan y prif weithredwr.

Yn ddiweddar, cynhaliodd yr ymddiriedolaeth arolwg defnyddwyr ar gyfer y gwasanaeth meddygol brys a gofal claf. Roedd crynodeb cychwynnol o'r canlyniadau ar gael ar adeg ymweliad y Comisiwn ond disgwylir dadansoddiad llawn o hyd.

Mae'r ymddiriedolaeth yn dechrau rhannu rywfaint o wybodaeth am weithgareddau PPI drwy ei gwefan, ei mewnrwyd, a thrwy gylchgronau *Siren* ac *Insight*.

Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu rhywfaint o gymorth i staff ddatblygu sgiliau mewn PPI ond ni chaiff gweithgareddau eu cydlynu ac nid ydynt ar gael yn eang drwy raglenni dysgu strwythuredig. Fodd bynnag, anogir staff i ddysgu Cymraeg ac mae hyn ar gael yn eang drwy raglenni dysgu strwythuredig.

Pa feysydd o gyfranogiad y cleifion y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Dylai'r ymddiriedolaeth atgyfnerthu ei strwythurau a'i hatebolrwydd ar gyfer PPI, ynghyd â rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y gellir cynnwys cleifion.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ehangu ei fframwaith strategol a diffinio cynllun gweithredu gydag atebolrwydd ac amserlenni cysylltiedig ar gyfer darparu PPI.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth weithio tuag at gydlynu gweithgareddau PPI gyda phrosesau sicrwydd er mwyn ategu'r broses o weithredu polisïau.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ddatblygu fframwaith lle y gall y sefydliad cyfan ddysgu a gwella o ganlyniad i PPI.
- Dylai'r ymddiriedolaeth ddiffinio rhaglen hyfforddi i gwmpasu'r holl agweddau ar PPI. Dylid sicrhau bod hyn ar gael i'r holl staff.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau rheoli risg yr ymddiriedolaeth?

Mae'r adran hon yn disgrifio systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer deall, monitro a lleihau'r risg i gleifion a staff ac ar gyfer dysgu o gamgymeriadau.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Gwnaeth yr ymddiriedolaeth rywfaint o gynnydd wrth reoli risgiau mewn perthynas â sefydlu systemau a phrosesau. Fodd bynnag, mae angen datblygu rhai materion allweddol o ran rheoli risg glinigol a nodi digwyddiadau ymhellach. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu cysylltiadau gyda rheolaeth glinigol.

Asesiad y Comisiwn = ii (a)

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Mae strategaeth yr ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli risg yn nodi atebolrwydd clir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn pryderu nad yw staff ar bob lefel o'r sefydliad yn deall y rhain yn llawn. Cafwyd dryswch arbennig ynghylch cyfrifoldebau staff dros risgiau clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol.

Ceir strwythurau pwyllgor helaeth ar gyfer nifer o weithgareddau rheoli risgiau ond nid ydynt yn ddigon eglur o ran cofnodi a chydlynu. Mae'r ymddiriedolaeth wedi nodi hyn yn ei chynllun gweithredu rheolaeth glinigol presennol.

Mae'r bwrdd yn trafod materion risg a godwyd gan ei is-bwyllgorau yn rheolaidd.

Mae strategaeth risg yn amlwg yn nodi dymuniad i greu diwylliant sy'n groes i risgiau, a gwella sgoriau risgiau yn erbyn safonau rheoli risg Cymru. Caiff sgoriau eu hunan asesu ond maent yn amodol ar rywfaint o wirio allanol. Prin yw cyfranogiad claf yn y broses o reoli risgiau.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi datblygu cofrestr risgiau drwy redeg gweithdai a chynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr staff a phrif reolwyr. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio'n sylweddol ar risg nad yw'n glinigol. Mae wedi canolbwyntio ar reoli'r risgiau o fewn safonau rheoli risg Cymru ond nid yw wedi cydnabod risgiau clinigol sylweddol eraill y tu allan i'r safonau hyn. Mae systemau rheoli risg glinigol yn anaeddfed ac maent wedi achosi i'r ymddiriedolaeth ymateb yn adweithiol i ddigwyddiadau ar sawl achlysur.

Mae gan yr ymddiriedolaeth broses ar gyfer rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r gofrestr risgiau, er nad yw hyfforddiant asesu risgiau wedi'i raeadru'n eang. Mae enghreifftiau o asesiadau risg glinigol yr ymgymerwyd â hwy yn cynnwys rheoli meddyginiaethau, rheoli heintiau, gwerthuso offer a safoni protocolau cyffuriau.

Caiff proses yr ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli risg ei chydlynu'n genedlaethol ac felly mae'r ymddiriedolaeth yn agored i rai risgiau posibl. Er enghraifft, nid yw'r ymddiriedolaeth wedi cyflawni symudiad diwylliannol eto ym mharodrwydd y staff i gofnodi digwyddiadau a methiannau agos. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau gan yr ymddiriedolaeth ynghylch achosion posibl o dan gofnodi.

Canfu'r Comisiwn fod staff yn ymwybodol o faterion rheoli risg ond nad oedd gan rai staff ddigon o hyder i gofnodi digwyddiadau oherwydd eu bod ofn cael ymateb negyddol gan y rheolwyr.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau rheoli risg yr ymddiriedolaeth? *parhad*

Mae'r ymddiriedolaeth wedi blaenoriaethu a chyflwyno rhai mesurau penodol i reoli a lleihau rhai risgiau sylweddol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys polisïau a phecynnau hyfforddi sydd wedi'u cyfeirio at staff meddygol brys i gynorthwyo gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, delio â thrais a bygythiadau a dull ymdrin â llaw.

Fodd bynnag, mae gan y Comisiwn bryderon difrifol ynghylch methiannau o fewn systemau, a allai ganiatáu lefelau sylweddol o risgiau nas rheolir o hyd. Nododd staff enghreifftiau a oedd yn cynnwys dull annigonol o leoli staff a cherbydau, methiannau o fewn systemau cyfathrebu, achosion lle peryglwyd diogelwch claf, yn cynnwys amseroedd gweithredu hir a methiannau wrth roi polisïau ar waith.

Cynhelir dadansoddiad o ddigwyddiadau, cwynion a hawliadau yn gorfforaethol ond ni chaiff y gwersi a ddysgir eu rhannu'n eang na'u trafod gyda chleifion, y cyhoedd neu'r staff. Prynodd yr ymddiriedolaeth system cronfa ddata i gyflymu'r broses o ddadansoddi a chofnodi tueddiadau, ond bu cyflwyniad y system hon yn araf. Yn gyffredinol, prin yw'r dystiolaeth o welliannau o ran ansawdd gofal sy'n deillio o reoli risgiau. Canfuwyd rhai enghreifftiau ynysig gan gynnwys dull wedi'i feincnodi o reoli dangosyddion heintiau a symudiadau tuag at hyfforddiant gloywi i yrwyr drwy'r cynllun gweithredol ar gyfer asesu gyrwyr.

Dywed staff mai anaml y derbyniant adborth mewn ymateb i ddigwyddiadau a gofnodir.

Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi yr ymddiriedolaeth yn nodi 26 o anghenion sy'n gysylltiedig â risg. Lluniwyd cynllun gweithredu sy'n dangos y disgwylir i'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant gael ei gwblhau erbyn diwedd 2003/2004. Trafodir rhai materion rheoli risg yn awr fel rhan o'r cwrs sefydlu craidd a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Caiff safonau rheoli risg Cymru eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi cynnydd. Mae angen i'r ymddiriedolaeth ddiffinio dangosyddion perfformiad ehangach er mwyn nodi meysydd risg eraill ar y cyd â Chronfa Risg Cymru.

Pa feysydd rheoli risg y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae angen egluro atebolrwydd ar gyfer risgiau clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol ar frys a'u lledaenu ar draws yr ymddiriedolaeth.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ehangu ei chofrestr risgiau ar frys er mwyn sicrhau y caiff pob mater rheoli risg ei nodi a'i asesu. Dylai fod gan yr ymddiriedolaeth gynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith, a dylai fonitro'r rhain yn weithredol.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth weithredu ei pholisïau ar frys a datblygu ffyrdd o sicrhau y caiff digwyddiadau eu cofnodi ac yr ymchwilir iddynt mewn ffordd briodol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu systemau effeithiol i sicrhau y caiff yr holl wersi a ddysgir o'r broses rheoli risgiau eu nodi a'u cyfleu i staff o fewn amgylchedd agored a chefnogol.
- Dylai'r ymddiriedolaeth gwblhau ei rhaglen o hyfforddiant rheoli risg gan gynnwys staff o bob lefel o'r sefydliad, ynghyd â rhagweld a chynllunio ar gyfer anghenion yn y dyfodol.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ddatblygu dangosyddion rheoli risg ymhellach gan ganolbwyntio ar risg glinigol, cofnodi digwyddiadau ac adborth.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau archwiliad clinigol yr ymddiriedolaeth?

Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso, mesur a gwella eu gwaith a'r safonau a gyflawnir ganddynt yn barhaus.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Megis cychwyn y mae'r broses o ddatblygu archwiliad clinigol a dylid ei hintegreiddio â meysydd rheolaeth glinigol eraill.

Asesiad y Comisiwn = i

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Mae gan yr ymddiriedolaeth atebolrwydd a ddatblygwyd yn rhannol ar gyfer archwiliad clinigol nad yw wedi'i integreiddio'n llawn yn strategol na'n weithredol. Y cyfarwyddwr meddygol yw arweinydd y bwrdd a chaiff gweithgareddau dyddiol eu rheoli ar sail secondiad gan y rheolwr archwiliad clinigol cenedlaethol. Mae gan y swyddogion gweithrediadau clinigol y potensial i ategu'r broses o ymgorffori archwiliad clinigol yn weithredol ond nid yw eu strwythur wedi'i integreiddio'n ddigonol ar hyn o bryd i alluogi hyn.

Yn absenoldeb pwyllgor archwilio, mae'r prif grŵp rheolaeth glinigol yn adolygu archwiliadau yn gyfnodol. Mae'r arweinydd archwilio a'r cyfarwyddwr meddygol yn blaenoriaethu archwiliadau. Nodir rhai trafodaethau archwilio o fewn fforymau eraill ond mae hyn yn cyfyngu ar gyfle'r ymddiriedolaeth i gael trafodaethau archwiliad clinigol sydd wedi'u strwythuro'n ddigonol ac i gydlynu gweithgaredd archwilio ar draws yr ymddiriedolaeth. Er bod y cyfarwyddwr meddygol yn cynrychioli archwiliad clinigol ar y pwyllgor rheolaeth glinigol, ystyria'r Comisiwn y gellid atgyfnerthu'r pwyllgor drwy gynnwys y rheolwr archwiliad clinigol cenedlaethol fel aelod er mwyn sicrhau y caiff materion methodolegol archwiliad clinigol eu datblygu.

Nid oes gan yr ymddiriedolaeth strategaeth archwiliad clinigol ond mae ganddi gynllun archwiliad clinigol blynyddol. Ceir proses ar gyfer cadarnhau'r cynllun ond ni chaiff y cynllun ei hun ei lywio gan set o feini prawf cytûn sy'n seiliedig ar gysylltiadau â rhannau eraill o'r agenda rheolaeth glinigol neu nodau hirdymor yr ymddiriedolaeth. Nid yw gweithgareddau yn gysylltiedig â mentrau rheolaeth glinigol eraill, ac eithrio rhai gweithgareddau effeithiolrwydd clinigol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o weithio mewn partneriaeth, yn arbennig o ran y cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru.

Dyrannwyd adnoddau i'r archwiliad clinigol. Neilltuwyd yr adnoddau hynny ar gyfer y broses o sganio cofnodion gofal claf a'r tîm penodedig sy'n gyfrifol am hyn, ynghyd â secondio'r rheolwr archwiliad clinigol cenedlaethol. Nid yw'n glir sut y caiff yr arian sy'n weddill ei ddyrannu er mwyn ategu'r broses o ddatblygu archwiliad clinigol.

Cynhaliwyd rhai archwiliadau sylweddol o gyflyrau penodol ond ni fabwysiadwyd yr archwiliad o fodelau newydd o ymateb i alwadau brys fel rhan ganolog o'r rhaglen.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau archwiliad clinigol yr ymddiriedolaeth? *parhad*

Nodir cyfranogiad ym mhrosiect archwiliad cenedlaethol cnawdnychiant myocardaidd y DU ac archwiliad trawma gyda'r rhwydwaith archwiliad ac ymchwil trawma. Cynhaliwyd rhywfaint o waith archwilio ac ail archwilio clinigol mewnol ar draws Cymru gyfan gan gynnwys edrych ar gleifion sydd â phoen yn eu brest, cleifion ag anafiadau i'w pen, trin anafiadau posibl i asgwrn y cefn, cleifion ag asthma a chleifion sydd ag ataliad ar y galon. Canfu'r Comisiwn rywfaint o dystiolaeth o weithgaredd archwilio arall o fewn yr ymddiriedolaeth yn cynnwys ymatebwyr cyntaf a rhywfaint o waith rheoli meincnodau heintiau. Cynhelir archwiliad clinigol yn bennaf o'r swyddfa archwiliad clinigol gyda chyfranogiad prin gan staff neu gleifion. Cafodd rhai aelodau o staff eu secondio am gyfnodau byr o amser. Mae effaith y gweithgaredd hwn wedi dylanwadu ar rai rhaglenni hyfforddi staff ond nid yw ei effaith ar staff yn eang.

Dywedodd staff wrth y Comisiwn fod y rhaglen archwiliad clinigol bresennol yn cael ei hatal gan ôl-groniad o gofnodion gofal claf. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd data a gwallau yn eu hallbwn. Cyfyngir gwaith dadansoddi i brosesau yn hytrach na dull mwy helaeth o archwilio ansawdd gofal.

Clywodd y Comisiwn am ganolfan ragoriaeth yr ymddiriedolaeth ar gyfer delio ag achosion meddygol yn nhrefn eu blaenoriaeth. Mae'r Comisiwn yn pryderu bod y broses ail achredu wedi'i gohirio mewn rhai canolfannau tra bod staff yn cael ail hyfforddiant ar feddalwedd newydd yn dilyn achosion o gyfuno ystafelloedd rheoli.

Caiff rhai canlyniadau archwiliad clinigol eu lledaenu drwy hyfforddiant gloywi a chylchgrawn *Insight* a gyflwynwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn ategu'r broses o ledaenu canlyniadau, dysgu a gwelliannau yn effeithiol er mwyn sicrhau newidiadau mewn arferion. Mae'r Comisiwn yn pryderu nad yw'r prif grŵp rheolaeth glinigol wedi rhannu rhai canlyniadau archwilio oherwydd eu pryderon ynghylch cydymffurfiaeth wael gan griwiau a data o ansawdd gwael, gan golli cyfle i reoli anawsterau archwilio yn effeithiol a rhannu hyn y gellid ei ddysgu o gamgymeriadau.

Prin oedd yr aelodau o staff a allai ddisgrifio sut y mae archwiliad clinigol wedi arwain at unrhyw newid yn eu harferion. Prin yw gwybodaeth llawer o staff am archwiliad clinigol a nodwyd mai'r unig ffordd y maent yn ymwneud â'r broses yw'r ffaith bod y tîm gweithrediadau clinigol yn gwirio eu bod wedi cwblhau'r meysydd cywir ar eu cofnodion gofal claf.

Mae hyfforddiant archwilio clinigol ar gyfer staff ar gael yn bennaf i'r rhai sy'n gwneud cyrsiau gradd israddedig ac ôl-raddedig.

Sefydlwyd gwaelodlin o ofal clinigol drwy ddangosyddion perfformiad yn 2002 ond ymddengys fod y gwaith wedi dod i ben.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau archwiliad clinigol yr ymddiriedolaeth? *parhad*

Pa feysydd archwiliad clinigol y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae'n rhaid datblygu strategaeth archwiliad clinigol gyda chynllun archwiliad clinigol wedi'i flaenoriaethu sy'n cynnwys pob grŵp o staff ar bob lefel o'r sefydliad, yn ogystal â chleifion a rhan ddeiliaid eraill.
- Dylai'r ymddiriedolaeth ystyried ei hymagwedd a'i hymrwymiad i archwiliad clinigol a dylai atgyfnerthu ei dull o ddarparu archwiliad clinigol drwy'r sefydliad cyfan.
- Er mwyn sicrhau hyder yng nghanlyniadau prosiectau archwiliad clinigol dylid rhoi blaenoriaeth i'r broses o gasglu data clinigol dibynadwy sydd wedi ei sicrhau o ran ansawdd.
- Dylid lledaenu archwiliadau clinigol yn agored. Dylid trafod canlyniadau gyda staff er mwyn hwyluso dealltwriaeth, dysg a newidiadau i arferion.
- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ddiffinio pecynnau hyfforddi amrywiol ar gyfer archwiliad clinigol sy'n gymesur ac yn briodol i bob grŵp staff o fewn y sefydliad.
- Dylai'r ymddiriedolaeth ddatblygu ei gwaith ar ddangosyddion perfformiad clinigol.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer effeithiolrwydd clinigol?

Mae'r adran hon ym ymdrin â'r ffordd y mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau bod yr ymagweddai a'r triniaethau a ddefnyddir ganddi yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, er enghraifft o ymchwil, llenyddiaeth neu ganllawiau cenedlaethol neu leol.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Mae'r ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu systemau a phrosesau i ategu arferion clinigol effeithiol, yn enwedig mewn ymchwil. Mae rhai o strwythurau'r pwyllgorau yn cael anhawster i gyflawni nodau, tra bod angen datblygu eraill o hyd. Nid yw'r systemau ar gyfer gwella ansawdd gofal drwy ddysgu systematig wedi'u datblygu'n llawn eto.

Asesiad y Comisiwn = ii (a)

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Mae'r atebolrwydd ar gyfer ymchwil yn glir ac wedi'i arwain gan y cyfarwyddwr meddygol, ond nid yw meysydd effeithiolrwydd clinigol eraill wedi'u diffinio a'u hintegreiddio cystal ar draws yr ymddiriedolaeth.

Ymddengys fod yr ymddiriedolaeth yn gweithredu dau strwythur effeithiolrwydd clinigol. Y cyntaf yw'r ymagwedd gwasanaeth ambiwlans fwy traddodiadol drwy bwyllgorau llywio para meddygol, y mae tri ohonynt ledled Cymru. Nid yw un ohonynt wedi cyfarfod am gryn amser, ac mae'r ddau bwyllgor arall yn ei chael yn anodd i ddarparu eu cylch gwaith gwreiddiol ac nid ydynt yn cysylltu â chlinigwyr a staff, er bod yr ymddiriedolaeth wedi cydnabod hyn ac yn ceisio diwygio eu maes gweithgaredd. Mae'r ail strwythur yn ymddangos drwy'r strwythur rheolaeth glinigol, a dengys y potensial i ategu cyfeiriad yr ymddiriedolaeth ar effeithiolrwydd clinigol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n llawn. Mae angen i'r ymddiriedolaeth weithio tuag at integreiddio'r ddau strwythur er mwyn sicrhau y cyflawnir yr agenda effeithiolrwydd. Mae'r Comisiwn hefyd yn pryderu y caiff y dilyniant rhwng y ddau strwythur ei danseilio gan lefelau sylweddol o ddiffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi sefydlu rhaglenni gwaith ar gyfer effeithiolrwydd clinigol ond ni chaiff y rhain eu llywio gan strategaethau neu gynlluniau a ddiffinnir yn glir. Mae'r agenda effeithiolrwydd yn ymwneud yn bennaf ag ymchwil ac ni roddir cymaint o bwyslais ar ddatblygu staff a gweithredu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, caiff rhai gweithgareddau effeithiolrwydd clinigol eu hintegreiddio o fewn rhaglenni hyfforddi a thrwy'r strwythur gweithrediadau clinigol.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi sefydlu rhai partneriaethau cadarn a cheir rhywfaint o gyfranogiad gan gleifion drwy gynrychiolaeth o'r cynghorau iechyd cymuned. Denwyd rhai adnoddau allanol ar gyfer gweithgareddau effeithiolrwydd clinigol ond mae'r rhain yn bennaf drwy'r arena ymchwil.

Mae'r prif grŵp rheolaeth glinigol wedi creu nifer sylweddol o bolisïau a gweithdrefnau rheolaeth glinigol. Drwy ei huned ymchwil brys cyn ysbyty mae'r ymddiriedolaeth wedi gweithio mewn partneriaeth â Chydbwyllgor Cysylltu Ambiwlansiau y Coleg Brenhinol er mwyn dylanwadu'n gryf ar y broses o ddatblygu canllawiau clinigol cenedlaethol yn y DU sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau. Addaswyd y rhain yn lleol gan is-grŵp bach o'r prif grŵp rheolaeth glinigol er mwyn eu gwneud yn briodol i Gymru. Fodd bynnag, nid oes digon o eglurder i'r prosesau a ddefnyddir i gyflawni hyn ac ni chânt eu cymeradwyo gan glinigwyr eraill sy'n cefnogi'r ymddiriedolaeth.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer effeithiolrwydd clinigol?
parhad

Dosbarthwyd y polisïau a'r gweithdrefnau rheolaeth glinigol a'r canllawiau clinigol diwygiedig ar draws yr ymddiriedolaeth. Mae staff yn mynegi pryderon ac anhawster i ddeall y rhesymau dros rai o'r newidiadau clinigol a ddisgwylir yn eu hymarfer. Mae'r uwch swyddogion gweithrediadau clinigol, ynghyd â'r swyddog archwiliad clinigol cenedlaethol, wedi cynnal gwerthusiad cadarn o fodelau darparu ar gyfer thrombolysis cyn ysbyty er mwyn ategu'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru. Mae hyfforddiant i ategu'r datblygiad hwn bellach ar waith.

Mae'r ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i ddatblygu nifer fach o staff clinigol effeithiol. Mae hwn yn gam cadarnhaol. Mae'r ymddiriedolaeth wedi cefnogi'r broses o ddatblygu'r strwythur asesu gweithredol sy'n dechrau effeithio ar arferion ac a allai, o bosibl, chwarae rôl allweddol yn y broses o gau'r ddolen ar gyfer lledaenu a mabwysiadu arfer effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwerthuso'r rôl ymhellach. Bu'r ymddiriedolaeth yn rhag gweithiol hefyd gyda'i phartneriaid wrth ddatblygu cyrsiau gradd i is-raddedigion ac ôl-raddedigion mewn gofal cyn ysbyty ac wrth ddatblygu cynllun ymarferwyr para meddygol brys.

Mae'r mynediad i adnoddau effeithiolrwydd clinigol yn cynnwys hyfforddiant arfarniad critigol yn gyfyngedig. Cynigir rhywfaint o arweiniad i staff drwy'r llawlyfr gweithdrefnau rheolaeth glinigol ond nid oes gan y rhan fwyaf o staff fynediad i lyfrgell neu i'r rhyngrwyd oni bai eu bod yn ymweld â chanolfannau hyfforddi neu orsafoedd ambiwlans lleol. Sicrheir bod adnoddau ar gael i staff sy'n gweithio yn yr uned ymchwil cyn ysbyty ac i fyfyrwyr ar gyrsiau.

Nid yw gweithgareddau effeithiolrwydd clinigol wedi'u cysylltu'n llawn â system archwiliad clinigol aeddfed er mwyn hwyluso dull monitro perfformiad cadarn.

Pa feysydd o effeithiolrwydd clinigol y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddiffinio ei hatebolrwydd a'i strwythurau ar gyfer effeithiolrwydd clinigol yn glir.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer rhaglen gytbwys o waith effeithiolrwydd clinigol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth sefydlu systemau sicrwydd er mwyn sicrhau y caiff y broses o ddatblygu polisïau ei gweithredu'n systematig gan staff rheng flaen.
- Mae'n rhaid i staff gael eu cynorthwyo a dylent fod yn gysylltiedig â datblygiadau polisi i hwyluso'r ddealltwriaeth o'r amgylchedd clinigol newidiol y maent yn gweithio o'i fewn.
- Mae angen sicrhau bod adnoddau a hyfforddiant ar gael i helpu staff i ddatblygu sgiliau clinigol a dadansoddiadol newydd.
- Dylai'r rhaglen effeithiolrwydd clinigol gysylltu'n agos ag archwiliad clinigol er mwyn monitro perfformiad.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer staffio a rheoli staff?

Mae'r adran hon yn cwmpasu recriwtio, rheoli a datblygu staff. Mae hefyd yn cynnwys hyrwyddo amodau gwaith da a dulliau effeithiol o weithio.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Mae'r ymddiriedolaeth wedi gweithio'n galed i gyflwyno polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth ar gyfer Cymru gyfan ond mae dull gweithredu anghyson wedi arwain at gynnydd araf. Ymddengys ei bod yn anodd creu diwylliant lle y gall rheolaeth glinigol ffynnu.

Asesiad y Comisiwn = ii (c)

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Y cyfarwyddwr personél a hyfforddiant sy'n aelod bwrdd ac sy'n rheoli nifer o swyddi ategol sydd â'r atebolrwydd strategol dros staffio a rheoli staff. Canfu'r Comisiwn llawer llai o eglurder yn y strwythurau gweithredol lle nad yw swyddogaethau gweithredol a chlinigol cystadleuol wedi'u hintegreiddio'n llawn i gynhyrchu llinellau atebolrwydd clir.

Ymdrinnir â materion personél drwy nifer o grwpiau a fforymau ymgynghorol cenedlaethol a rhanbarthol ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r undebau amrywiol ond nid oes gan un pwyllgor farn unedig ynglŷn â materion personél. Er bod y bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion staffio, mae'r ystod o wybodaeth sydd ar gael yn gyfyngedig a'r duedd yw ymdrin â phapurau ar y sefyllfa yn y dyfodol yn hytrach na monitro effaith gweithredu polisïau presennol.

Roedd strategaeth ddrafft yn cael ei thrafod ar adeg ymweliad y Comisiwn. Mae gan yr ymddiriedolaeth gynllun gweithlu sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gweithlu sy'n newid, a gaiff ei hadolygu'n allanol ddwywaith y flwyddyn. Ni allai'r Comisiwn ganfod tystiolaeth o broffil gweithlu a oedd yn gysylltiedig â datblygiad sefydliadol a chynllunio olyniaeth.

Er bod gan yr ymddiriedolaeth gontract cyflogaeth Cymru gyfan, mae llawer o staff wedi dewis parhau â'r hen delerau ac amodau sy'n golygu eu bod yn cael eu rheoli o waelodlin o 13 o gontractau gwahanol. Mae hyn yn achosi anhawster i reolwyr ac yn atal datblygiad un diwylliant yn yr ymddiriedolaeth. Gwnaed llawer o waith i gyflwyno polisïau a gweithdrefnau Cymru gyfan yn cynnwys rhai opsiynau gweithio hyblyg. Fodd bynnag, mae'r broses o gymhwyso'r polisïau hyn yn anghyson wedi cyfrannu at ymdeimlad o rwystredigaeth a diffyg cydraddoldeb ymhlith gweithlu'r ymddiriedolaeth. Roedd y Comisiwn yn arbennig o ymwybodol o bryderon staff mewn perthynas â dull anghyson o gymhwyso'r polisïau ar ddyrchafu a secondio, salwch, disgyblu a chyfle cyfartal.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi cyflwyno diwrnod sefydlu corfforaethol ac mae staff yn cyflawni proses sefydlu bellach yn dibynnu ar eu llwybr cyflogaeth. Mae proses ar farnu yn cael ei datblygu o fewn yr haenau rheoli gyda thua 45 o reolwyr wedi cael eu ar farnu hyd yn hyn. Mae cynlluniau goruchwyliaeth a mentora clinigol hefyd yn cael eu datblygu drwy'r cynlluniau asesu gweithredol er na roddir amser penodol i aseswyr gyflawni'r rôl hon. Ni chaiff rhai grwpiau staff clinigol eu goruchwylio'n glinigol o hyd. Mae proses yn bodoli ar gyfer cofrestru para meddygon, gwirio trwyddedau gyrru a gwiriadau gan yr heddlu ond nid yw'r Comisiwn yn sicr a yw'r broses hon yn cael ei gweinyddu'n gadarn ar draws yr ymddiriedolaeth.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer staffio a rheoli staff? *parhad*

Er y ceir rhywfaint o arfer da mewn perthynas â dosbarthu rotâu yn lleol, maent yn fyrdymor o ran eu natur ac nid ydynt yn gysylltiedig â fframwaith sy'n ategu anghenion strategol tymor hwy yr ymddiriedolaeth. Cyfeiriodd llawer o staff rheoli at drosiant uchel, prinder staff a dibyniaeth yr ymddiriedolaeth ar secondiadau nas diffinnir. Dywedodd pob gradd o staff wrth y Comisiwn bod yr ymddiriedolaeth wedi datblygu diwylliant o ddibyniaeth ar oramser. Mae'r diwylliant hwn wedi arwain at salwch, patrymau lleoli anghyson sy'n dibynnu ar gymysgedd o sgiliau amhriodol a hen arferion gan gynnwys y ffaith eu bod yn anodd rhyddhau staff i gael seibiannau.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi ymdrin â materion ynglŷn â diogelwch staff ac wedi cyflwyno polisi gweithwyr unigol, llyfryn ar ddiogelwch personol a rheoli gwrthdaro ynghyd â hyfforddiant ar rai agweddau ar ddiogelwch personol. Derbyniodd y Comisiwn adborth cymysg ar gydberthnasau rhwng staff a rheolwyr ar draws yr ymddiriedolaeth. Er bod rhai enghreifftiau ardderchog o gydweithio cynyddol lle'r oedd parch yn amlwg rhwng aelodau'r tîm cyfeiriodd staff hefyd at rai enghreifftiau siomedig o fwlio ac aflonyddu, diffyg parch a gweithio gwael mewn tîm.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y broses o gyfathrebu â staff yn achosi problemau o ganlyniad i'w lledaeniad daearyddol ac mae wedi dechrau gweithio ar strategaeth gyfathrebu i wella'r sefyllfa hon. Nid yw'r ymddiriedolaeth bob amser yn manteisio i'r eithaf ar ei strwythur gweithredol fel dull o gyfathrebu â staff ac yn hytrach, mae'n dibynnu'n helaeth ar ei fforymau ymgynghorol cenedlaethol a rhanbarthol fel dull o gyfathrebu.

Prin yw'r dystiolaeth o'r ffaith bod yr ymddiriedolaeth yn darparu adborth i'r staff, er y cyflawnwyd rhywfaint o waith ar weithio hyblyg, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyfforddiant ar drais a bygythiadau o ganlyniad i asesiadau risg a'r arolwg staff cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd sawl aelod o staff nad oeddent yn ymwybodol o'r arolwg staff.

Mae'r dulliau cyfathrebu â staff yn anghyson er gwaethaf y ffaith bod yr ymddiriedolaeth yn dechrau gwneud defnydd o offer ar y we a chyfryngau fel y cylchgronau staff *Insight* a *Siren*.

Mae gan yr ymddiriedolaeth ystod o strwythurau cynnal ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys iechyd galwedigaethol, llinell gynghori 24 awr a chynllun cynnal cydweithwyr ar gyfer staff. Mae staff yn croesawu'r rhain. Fodd bynnag, mae rhai yn cael anhawster i ddefnyddio darparwyr iechyd galwedigaethol.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi gweithio'n galed i fonitro a lleihau ei chyfraddau absenoldeb oherwydd salwch drwy gyfuniad o ddull gwell o fonitro perfformiad a'r ffaith bod mwy o ddisgwyl i reolwyr lynu wrth bolisïau.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer staffio a rheoli staff? *parhad*

Pa feysydd o ran staffio a rheoli staff y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth egluro atebolrwydd ar gyfer rheoli staff drwy'r sefydliad ac ystyried ymhellach sut y gall gyflymu'r cynnydd tuag ar greu contract cyflogaeth unedig.
- Mae'n rhaid i'r rheolwyr llinell fod yn gyfrifol am berfformiad clinigol staff, yn seiliedig ar fonitro effeithiol a systemau adborth.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi strategaeth a ddiffinnir yn glir ar waith sy'n darparu proffil o'r gweithlu. Mae'n rhaid i hyn gael ei gysylltu'n glir ag asesiad rheolaidd o'r ffordd y mae patrymau galw yn newid a dylai adlewyrchu effeithiolrwydd opsiynau ymateb gwahanol a mwy amrywiol, cyfraith cyflogaeth sy'n newid ac anghenion hyfforddi o fewn cynllun datblygu sefydliadol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddiffinio prosesau i brofi a sicrhau bod ei pholisïau personél yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn gyfartal ar draws yr ymddiriedolaeth.
- Mae'n rhaid gweithredu polisi urddas yn y gwaith yr ymddiriedolaeth yn drylwyr.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl staff yn ymwneud ag adborth a lledaenu datblygiadau polisi allweddol a dysgu. Mae'n rhaid cymryd camau i weithredu'r strategaeth gyfathrebu cyn gynted â phosibl.
- Dylai'r ymddiriedolaeth weithio gyda sefydliadau partner i wella'r mynediad i ymgynghoriadau iechyd galwedigaethol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ehangu ei hystod o ddangosyddion perfformiad ar gyfer materion staffio.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol parhaus?

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r cymorth sydd ar gael i alluogi staff i fod yn gymwys i wneud eu gwaith, tra'n datblygu eu sgiliau a'r graddau y mae staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn eu maes.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Mae ymagwedd yr ymddiriedolaeth tuag at addysg a hyfforddiant yn newid ar hyn o bryd, gan gynnwys rhai agweddau ar reolaeth glinigol. Nid yw'r strwythurau newydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn weithredol ac ni chawsant eu gwerthuso o ran eu heffeithiolrwydd, gan achosi staff i fynegi dryswch a phryder. Mae'r Comisiwn yn pryderu nad yw rhai grwpiau staff wedi derbyn eu hyfforddiant gorfodol.

Asesiad y Comisiwn = ii (c)

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Caiff atebolrwydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ei nodi'n glir ar lefel bwrdd a thrwy'r rheolwr hyfforddiant ambiwlans cenedlaethol y mae ei gyfrifoldeb yn cynnwys pob math o hyfforddiant clinigol, datblygiad sefydliadol a symud a thrin. Mae'r atebolrwydd newydd ar gyfer aseswyr gweithredol ac aseswyr gyrru gweithredol, a gaiff eu rheoli ar y cyd gan dimau hyfforddi a gweithrediadau clinigol, yn rhoi cyfle i integreiddio hyfforddiant o fewn y strwythur rheoli gweithredol. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r ymagwedd hon ymhellach.

Mae'r Comisiwn yn pryderu nad oes fforwm penodedig ar gyfer trafod a monitro addysg a hyfforddiant, ond ceir llawer o bwyllgorau digyswllt. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cydlyniant rhwng pwyllgorau.

Mae'r ymddiriedolaeth yn neilltuo llawer o amser ac ymdrech i addysg a hyfforddiant ond nid yw gwaith yn rhan o strategaeth gyfredol ac nid oes iddo gysylltiadau clir â chynlluniau'r gweithle, cynlluniau datblygiad personol ac nid yw wedi'i integreiddio'n llawn â rheolaeth glinigol.

Mae partneriaethau sylweddol ar waith rhwng prifysgolion amrywiol, darparwyr iechyd a gwasanaethau brys eraill. Dylid cynnal y rhain ymhellach drwy eu cysylltu â strwythurau'r pwyllgorau sy'n ategu addysg, hyfforddiant a rheolaeth glinigol.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi dechrau ailddiffinio rolau rhai o'i gweithlu er mwyn bodloni ei galwadau gweithredol a daearyddol. Mae hyn wedi gofyn am ddatblygu graddau newydd o staff i ategu'r broses weithredol o ddarparu hyfforddiant yn ogystal â graddau newydd o staff i ddarparu rhai agweddau ar ofal iechyd cyn ysbyty.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol parhaus? *parhad*

Mae'r cynllun aseswr gweithredol yn ategu hyn yn sylweddol, ac fe'i croesewir gan staff. Fodd bynnag, mae rhai rheolwyr ac aseswyr gweithredol yn mynegi pryder ynghylch y diffyg eglurder ynglŷn â'r ystod o gyfrifoldebau ac awdurdod sy'n gysylltiedig â'r rôl. Mae'r Comisiwn hefyd yn pryderu nad oes rhaglen glir ar gyfer staff sy'n nodi pryd y bwriedir cynnal asesiadau yn y gwaith. Nid yw staff yn ymwybodol o gynlluniau i weithio gyda'u haseswyr.

Mae'r ymddiriedolaeth yn dechrau mapio'r broses datblygu sefydliadol drwy gynlluniau datblygiad personol ar gyfer uwch reolwyr. Fodd bynnag mae rolau swyddogion ambiwlans lleol yn parhau i ganolbwyntio ar dasgau gweinyddol ac nid ydynt wedi datblygu canolbwynt ar berfformiad clinigol eto.

Mae cynlluniau cyrsiau newydd yn dechrau cynnwys rhai agweddau ar reolaeth glinigol, er enghraifft hyfforddiant gloywi para meddygol a hyfforddiant gwasanaeth gofal claf haen ganolraddol. Fodd bynnag mae'r Comisiwn yn bryderus iawn ynghylch y ffaith y bu llawer o alwadau cystadleuol am addysg a hyfforddiant fel mai prin, os o gwbl, yw'r hyfforddiant y mae rhai grwpiau staff, yn cynnwys gwasanaethau gofal claf a thechnegwyr meddygol brys, wedi'i dderbyn ar gyfer rhai agweddau gorfodol ar eu gwaith.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi buddsoddi yn natblygiad proffesiynol staff yn bennaf ond nid yn benodol drwy'r radd Baglor yn y Gwyddorau gofal cyn ysbyty a'r radd Meistr yn y Gwyddorau rhaglen ymarferwyr para meddygol. Er bod y Comisiwn yn croesawu argaeledd y cyrsiau hyn a'r nifer sy'n penderfynu eu hastudio, mynega llawer o staff bryderon bod y cyrsiau hyn wedi'u datblygu ar draul datblygiad proffesiynol gorfodol a pharhaus a honnir mai dim ond i leiafrif o bobl y maent ar gael.

Prin yw'r dystiolaeth a ganfu'r Comisiwn o werthuso dysg a'i ledaenu ar draws yr ymddiriedolaeth, er bod gwiriad allanol diweddar a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gofal Iechyd a Datblygiad yn canmol prosesau hyfforddi'r ymddiriedolaeth. Enghraifft arfer da o raglen hyfforddi a arweiniodd at newid a werthuswyd yw'r broses o weinyddu asbirin a gychwynnwyd o ganlyniad i brosiect archwiliad clinigol a oedd yn dangos cydymffurfiad isel a ddilynwyd gan hyfforddiant ac ail archwiliad a oedd yn dangos gwelliannau mewn cydymffurfiad.

Mae gan yr ymddiriedolaeth bolisi dros dro ag egwyddorion arweiniol ar sut i ddethol a darparu cymorth i staff yn ystod cyfnodau astudio. Mae staff yn beirniadu'r ffordd anghyson y caiff y polisi ei weinyddu yn arbennig y gofyniad i weithio'r oriau a gollir drwy astudio. Mynega staff bryder hefyd ynglŷn â'r anhawster o fynychu rhai cyrsiau a gaiff eu rhedeg yn y gogledd neu'r de yn unig a goblygiadau hyn ar eu cyfer hwy. Mae'r ymddiriedolaeth yn cydnabod hyn ac yn dechrau mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol parhaus? *parhad*

Pa feysydd addysg a hyfforddiant y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae angen i'r ymddiriedolaeth ddiffinio ystod dyletswyddau ac awdurdod rheoli'r aseswyr gweithredol a'r aseswyr gyrru gweithredol yn glir mewn perthynas â pherfformiad clinigol. Mae'n rhaid i'r rôl hon gysylltu â'r swyddogion ambiwlans lleol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu strategaeth addysg a hyfforddiant sy'n cynnwys yr holl agweddau ar gylch gwaith addysg a hyfforddiant yr ymddiriedolaeth, gan gynnwys cysylltiadau agosach â'r agenda effeithiolrwydd clinigol.
- Mae angen cynnal asesiad llawn o anghenion hyfforddi er mwyn pennu ystod yr hyfforddiant sydd ei hangen o fewn yr ymddiriedolaeth, i helpu i flaenoriaethu a chynorthwyo'r broses o fonitro nifer y bobl sy'n cyflawni hyfforddiant.
- Mae'n rhaid cymryd camau brys i ddiweddaru hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu dulliau o werthuso er mwyn sicrhau ei hun y caiff dysg ei weithredu a'i ledaenu ar draws yr holl grwpiau staff.
- Dylai'r ymddiriedolaeth fonitro ei phroses o gymhwyso'r polisi seibiant astudio er mwyn sicrhau tegwch.
- Dylai'r ymddiriedolaeth ddatblygu dangosyddion perfformiad er mwyn olrhain cynnydd.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddio gwybodaeth?

Mae'r adran hon yn disgrifio'r systemau sydd ar waith gan yr ymddiriedolaeth i gasglu a dehongli gwybodaeth glinigol a'i defnyddio i fonitro, cynllunio a gwella ansawdd y gofal claf.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
Mae'r ymddiriedolaeth wedi etifeddu seilwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) nad oedd wedi'i gynllunio i gynnal ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru gyfan. Bu'r broses integreiddio yn araf ac mae hyn wedi golygu nad yw seilwaith TGCh yr ymddiriedolaeth sy'n cynnal rheolaeth glinigol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Asesiad y Comisiwn = i

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
Y cyfarwyddwr cyllid sy'n atebol am TGCh. Mae strwythurau ar waith ond nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol o ran ategu'r broses o ddatblygu rheolaeth glinigol.

Mae'r ymddiriedolaeth yn trafod ystod brin o faterion gwybodaeth glinigol yng nghyfarfodydd y bwrdd, y grŵp gweithredol a'r pwyllgor rheolaeth glinigol. Anaml y mae'r trafodaethau yn cyfeirio'n benodol at wella ansawdd gofal drwy ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol. Nid yr un aelodau o staff sy'n mynychu'r pwyllgorau TGCh a rheolaeth glinigol, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyflymdra datblygiadau.

Mae cynllun gweithredu rheolaeth glinigol diweddar yr ymddiriedolaeth yn amlinellu'r angen i ddatblygu strategaeth wybodaeth wedi'i diweddaru sy'n gysylltiedig â rheolaeth glinigol. Mae cynlluniau presennol yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau mewn seilwaith a systemau gweithredol yn hytrach nag anghenion gwybodaeth a'r defnydd o wybodaeth.

Prin yw'r dystiolaeth bod defnyddwyr, cleifion a phartneriaid yn ymwneud â'r broses o ddiffinio anghenion gwybodaeth. Dywedodd staff TGCh wrth y Comisiwn bod cyfarfodydd yn cael eu canslo'n aml, nad ydynt yn teimlo'n rhan o'r sefydliad ac na chaiff eu mewnbwn technegol ei werthfawrogi.

Mae'r fframwaith gwasanaeth ac ariannol yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn TGCh.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd drwy weithredu rhai systemau TGCh integredig. Mae polisïau ar waith i ategu a diogelu'r defnydd o wybodaeth ond mae gan y Comisiwn bryderon sylweddol ynghylch cydymffurfiad ac ansawdd data.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cynhyrchu adroddiadau o'i systemau rheoli a busnes i fonitro meysydd lle ceir perfformiad clinigol a pherfformiad nad yw'n glinigol prin. Fodd bynnag, drwy gydol adolygiad y Comisiwn, rhoddodd staff enghreifftiau o wybodaeth a oedd yn wallus yn eu barn hwy. Dengys cofnodion o gyfarfodydd a ddarparwyd gan yr ymddiriedolaeth hefyd drafodaethau a gafwyd ynghylch ansawdd data gwael. Anaml y mae trafodaethau yn canolbwyntio ar archwiliadau o ddata a sut i wella ansawdd data.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddio gwybodaeth?
parhad

Mae'r Comisiwn yn deall yr anawsterau y mae'r ymddiriedolaeth yn eu hwynebu o ganlyniad i gasglu data o lawer o systemau a noda fod yr ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at system unffurf o gofnodi data ymhob un o'i hystafelloedd rheoli. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn pryderu ynghylch effaith y gwallau presennol ar y broses o gynhyrchu gwybodaeth ac ar broses gwneud penderfyniadau'r ymddiriedolaeth.

Dangosodd staff ymwybyddiaeth amrywiol o bolisïau diogelwch gwybodaeth yr ymddiriedolaeth o ran diogelu data a gwarcheidwadaeth Caldicott. Gwelodd y Comisiwn rhai enghreifftiau o arfer da o ran rheoli cofnodion gofal claf yn ddiogel ond gwelodd hefyd nifer o achosion o dorri rheolau a oedd yn ymwneud â'r cofnodion hyn a chofnodion hyfforddi.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cwmpasu ardal ddaearyddol enfawr, sy'n ei gwneud yn anodd i gyfathrebu â staff a sefydliadau partner. Cyfeiriodd staff yn aml at fannau penodol lle na chafwyd signal radio a oedd yn ei gwneud yn anodd i gysylltu. Ceir seilwaith gwael i ategu cyfathrebu hefyd. Nid oes gan y rhan fwyaf o orsafoedd ambiwlans fynediad i gyfrifiaduron personol, neu gysylltiadau ar y We. Mae cyfathrebu mewnol yn y rhan fwyaf o orsafoedd yn dibynnu ar ddiwydrwydd swyddogion ambiwlans lleol i osod gwybodaeth copi caled ar hysbysfyrddau mewn gorsafoedd. Mynega staff bryder ynghylch y ffaith nad ydynt yn gweld gwybodaeth hanfodol yn brydlon. Daw rheolwyr ar draws problemau tebyg ond un ymgais i wella hyn ar gyfer rheolwyr yw'r broses o gyflwyno dull fideo gynadledda.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth o'r defnydd o wybodaeth i newid arfer, er enghraifft y defnydd o gynlluniau lleoli yn dilyn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth yr ymgynghorwyr Ymchwil Weithredol i Iechyd. Mae gwybodaeth arall yn cynnwys adroddiadau amseroedd ymateb, monitro cwynion a salwch, delio ag achosion clinigol yn nhrefn eu blaenoriaeth a rhai archwiliadau ymatebwr cyntaf, a cheir rhai enghreifftiau o'r defnydd o rywfaint o ddata archwiliad clinigol i lywio rhaglenni hyfforddi a newidiadau i ganllawiau clinigol.

Caiff dogfennau a negeseuon allweddol eu lledaenu drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau, y llawlyfr canllawiau clinigol, y rhyngrwyd, y fewnrwyd a dau gylchgrawn staff yr ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nid oes gan yr ymddiriedolaeth ddull systematig o sicrhau bod y staff wedi derbyn yr wybodaeth. Dim ond un rhanbarth sy'n hyrwyddo ei gyfarfodydd staff rheolaidd.

Prin yw'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir gan yr ymddiriedolaeth i'r staff drwy ddefnyddio TGCh. Rhoddir hyfforddiant TG i leiafswm bach o staff ar rai pecynnau meddalwedd busnes ac oddi ar y silff. Prin yw'r cymorth dadansoddol a ddarperir.

Prin yw'r defnydd o ddangosyddion perfformiad rheolaidd. Nid oes unrhyw ddangosyddion ansawdd clinigol yn bodoli.

Beth yw asesiad y Comisiwn o systemau'r ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddio gwybodaeth?
parhad

Pa feysydd o ddefnyddio gwybodaeth y dylai'r ymddiriedolaeth eu hystyried?

- Mae angen i'r ymddiriedolaeth sefydlu ffyrdd effeithiol o gysylltu TGCh a systemau rheolaeth glinigol er mwyn diffinio sut y gellir cyflawni gwelliannau yn ansawdd gofal claf drwy ddefnyddio gwybodaeth.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu strategaeth glir ar gyfer defnyddio TGCh.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth fynd ati ar frys i roi systemau ar waith sy'n profi ac yn sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn defnyddio data clinigol a data nad yw'n glinigol cadarn. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â system rheoli gwybodaeth.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth barhau i ddatblygu a monitro dulliau o gyfathrebu'n rheolaidd â'i staff a sefydliadau partner ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau clinigol y mae'n eu darparu.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu hyfforddiant i gynorthwyo staff yn y defnydd o TGCh ac yn y broses o ddatblygu sgiliau dadansoddol.
- Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth gyflwyno'r defnydd o ddangosyddion perfformiad er mwyn helpu i sicrhau ei hun o gynnydd ym mhob maes rheolaeth glinigol.

Beth yw capasiti strategol yr ymddiriedolaeth i wella?

Mae'r adran hon yn disgrifio'r gallu o fewn yr ymddiriedolaeth i fonitro a gwella ansawdd gofal claf.

Beth yw prif asesiad y Comisiwn?
O ystyried ystod a chymhlethdod sylweddol y materion y bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ymdrin â hwy ers ei sefydlu ym 1998, mae'n glod i'r ymddiriedolaeth ei bod wedi dechrau datblygu'r agenda rheolaeth glinigol dros y 28 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid yw llawer o feysydd rheolaeth glinigol wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd ac nid ydynt wedi'u hintegreiddio o fewn gweithgareddau prif ffrwd yr ymddiriedolaeth. Mae angen dileu'r rhwystrau i integreiddiad llawn er mwyn cyflawni cynnydd pellach.

Beth yw canfyddiadau allweddol y Comisiwn?
O ddydd i ddydd mae'r ymddiriedolaeth yn rheoli'r broses o ddarparu gofal cyn ysbyty o fewn fframwaith a gaiff ei gymhlethu gan ei faint, y dirwedd amrywiol, rhwydwaith rheilffordd a ffordd anghyfleus, poblogaeth wasgaredig a theithiau hir i rai ysbytai. Mae cysylltiad wyneb i wyneb yn anodd i'w drefnu hefyd gan fod bwrdd yr ymddiriedolaeth ac aelodau'r tîm gweithredol yn gweithio ledled Cymru. Bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ymdopi â chymhlethdodau'r broses gyfuno a'r anawsterau gwirioneddol a gafwyd o ran etifeddu dyled ariannol, ystad wael yn cynnwys adeiladau, cerbydau ac offer, hen seilwaith cyfathrebu radio a thechnoleg gwybodaeth annigonol.

Bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth weithio'n galed i gyflwyno diwylliant gwasanaethau ambiwlans i Gymru gyfan. Bu'n rhaid iddi ddelio â rhai rhwystrau i newid, gan gynnwys canfyddiadau staff, strwythurau rheoli blaenorol, trefniadau gweithio gwahanol gan wahanol staff a rhywfaint o wrthwynebiad lleol i resymoliad, a'i gwnaeth yn anodd i gyflawni darbodus rwydd maint.

Yn ystod dyddiau cynnar yr ymddiriedolaeth, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i ailosod cerbydau ac offer yn hytrach na defnyddio technoleg gwybodaeth newydd. Gwnaed y penderfyniadau hyn drwy roi ystyriaeth i gleifion a staff. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth bellach yn canfod bod angen gwybodaeth o ansawdd da arni er mwyn datblygu rheolaeth glinigol ond heb y seilwaith technoleg gwybodaeth llawn i ategu hyn.

Yn fwy diweddar, bu'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddelio â'r ansicrwydd o ail strwythuro'r gymuned iechyd a'r angen i greu cydberthnasau newydd a ddaeth yn sgìl ail-lunio'r GIG yng Nghymru a oedd yn cynnwys cyflwyno byrddau iechyd lleol a threfniadau comisiynu newydd gyda Chomisiwn Iechyd Cymru.

Creodd y trefniadau ariannu o dan strwythur yr hen awdurdod iechyd ddull anghyson o ddosbarthu adnoddau a'i gwnaeth yn anodd i'r ymddiriedolaeth ddarparu gwasanaeth teg. Dylai ffurfio Comisiwn Iechyd Cymru helpu i oresgyn y broblem hon, drwy ailddosbarthu adnoddau mewn ffordd deg ar draws cymunedau gwledig a threfol.

Cred yr ymddiriedolaeth fod ei chyfyngiadau ariannol yn rhwystro ei gallu i weithredu rhaglen ddatblygu i gyflawni gwasanaeth â chanolbwynt clinigol. Yn ystod blynyddoedd cynnar yr ymddiriedolaeth rhoddwyd sylw helaeth i sicrhau llwyddiant y broses gyfuno. Mae'r ymddiriedolaeth bellach ar y cam datblygu lle y dylai fod yn cyfeirio mwy o'i sylw at yr agenda rheolaeth glinigol.

Cyflogir y cyfarwyddwr meddygol ar sail rhan amser gan yr ymddiriedolaeth a chaiff hanner ei amser ei neilltuo i gyfarwyddo'r agenda rheolaeth glinigol. Cyfeiriodd y sawl y cyfwelwyd â hwy at fanteision arweinyddiaeth o'r fath a dyhead am arweinyddiaeth rheolaeth glinigol gynyddol ar lefel strategol.

Beth yw capasiti strategol yr ymddiriedolaeth i wella? *parhad*

Her sylweddol i fwrdd yr ymddiriedolaeth yw cwblhau'r newid yn niwylliant y sefydliad o'r hyn a etifeddodd sef diwylliant a oedd yn blwyfol, awtocratig a gweinyddol ei natur i ddiwylliant sefydliad sydd â chanolbwynt clinigol sy'n cydnabod y cyfle i adeiladu gwell gwasanaeth sy'n deg. Mae diwylliant agored, cyfiawn a theg yn hanfodol i greu gwasanaeth modern o'r fath ac mae angen i reolwyr weithio ar ddileu canfyddiadau staff o wasanaeth ynysig, llym ac annibynadwy.

Ceir rhai enghreifftiau trawiadol o waith o ansawdd da sy'n cael ei gyflawni i ategu'r broses o ddatblygu rheolaeth glinigol, sydd wedi cynnwys llawer o unigolion ledled yr ymddiriedolaeth. Bu gwaith y fintai o unigolion yn y strwythur gweithrediadau clinigol yn allweddol i hyn. Mae angen i'r mentrau hyn gael eu hintegreiddio a'u lledaenu yn llawer ehangach ar draws y sefydliad. Mae angen sicrhau bod pob lefel o'r sefydliad yn gyfrifol am reolaeth glinigol. Mae'n rhaid datblygu staff gweithredol er mwyn sicrhau bod rheolaeth glinigol yn rhan ganolog o'u gweithgareddau.

Er gwaethaf y ffaith bod yr ymddiriedolaeth wedi amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer unigolion a phwyllgorau yn nogfennau allweddol yr ymddiriedolaeth, noda staff fod y rhain yn aneglur a dengys tystiolaeth y Comisiwn nad yw pawb yn eu deall. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd ac anghysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r angen am hunanreolaeth wrth wneud penderfyniadau o fewn y strwythurau rhanbarthol er mwyn ategu darpariaeth leol ond mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth sicrhau bod y broses hon o wneud penderfyniadau yn digwydd o fewn fframwaith sy'n sicrhau tegwch ledled yr ymddiriedolaeth.

Hyd yn hyn datblygwyd y rhan fwyaf o'r strwythurau ar gyfer rheolaeth glinigol ochr yn ochr â gweithrediadau. Er mwyn i reolaeth glinigol ddatblygu, mae angen i'r strwythurau hyn gael eu hailwampio a'u hintegreiddio'n llawn o fewn gweithgareddau prif ffrwd yr ymddiriedolaeth.

Mae diffyg ymagwedd strategol benodol i reolaeth glinigol, ynghyd â gwybodaeth o ansawdd gwael a dull gwael o fonitro cynnydd, yn rhwystro dull cynllunio effeithiol ac yn golygu bod yr ymddiriedolaeth yn agored i risg sylweddol a'r posibilrwydd o ofal claf o ansawdd gwael. Hysbysodd yr ymddiriedolaeth y Comisiwn ei bod wrthi'n adolygu ei chynllun strategol.

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth ddatblygu ymagwedd gyson tuag at ffurfio, gweithredu a monitro ei strategaethau a'i pholisïau. Mae systemau aneffeithiol yn golygu bod yr ymddiriedolaeth yn adweithio i ddigwyddiadau yn hytrach nac yn eu rhagweld a'u rheoli. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth fynd i'r afael yn agored â'r materion anodd a fydd yn deillio o ddefnydd gwell o wybodaeth a bod â'r hyder i rannu canlyniadau yn agored a chymryd rhan yn y dadleuon a fydd yn llywio gwell dysg ac yn arwain at welliannau yn y pen draw.

Byddai gwell tryloywder, gwell cyfathrebu ac awdurdodi staff ymhellach yn arwain at brosesau gwneud penderfyniadau mwy hyddysg.

Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau GIG a sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r GIG er bod ganddi ymagwedd anffurfiol tuag at hyn. Mae ei gwaith wrth ddatblygu cynlluniau ymatebwr cyntaf gyda'r heddlu a'r gwasanaethau tân, sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr cymunedol o safon uchel.

Beth yw capasiti strategol yr ymddiriedolaeth i wella? *parhad*

Mae'r ymddiriedolaeth wedi dangos hyblygrwydd clodwiw wrth leoli staff ac wrth fynd i'r afael â materion amrywiol o ran ffiniau er mwyn helpu sefydliadau eraill sy'n wynebu pwysau difrifol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o'r GIG.

Dywedodd rhan ddeiliaid wrth y Comisiwn am rywfaint o weithio mewn partneriaeth adeiladol gyda rheolwyr canol yr ymddiriedolaeth. Fodd bynnag nid yw'r rheolwyr hyn wedi'u hawdurdodi i wneud penderfyniadau allweddol heb gyfeirio at y strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn arafu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn creu anfodlonrwydd ar lefel leol.

Dywedodd partneriaid y gymuned iechyd wrth y Comisiwn nad yw'r ymddiriedolaeth yn rhag gweithiol yn ei chysylltiadau gyda hwy. Mae hyn yn anffodus oherwydd bod partneriaid o'r farn bod yr ymddiriedolaeth wedi datblygu rhai mentrau pwysig sy'n eu cynorthwyo'n fawr ond eu bod wedi clywed am hyn yn anecdotaidd yn hytrach na thrwy gysylltiadau strwythuredig.

Mae gan yr ymddiriedolaeth berthynas waith agos â Chymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, sy'n mynychu cyfarfodydd bwrdd a chyfarfodydd cysylltu rhanbarthol yn rheolaidd. Mae aelodau o'r cyngor iechyd cymuned hefyd wedi ymuno â rhai o bwyllgorau gwaith yr ymddiriedolaeth.

Prin yw'r cyfraniad gwirioneddol a geir gan gleifion a'r cyhoedd drwy ddulliau eraill a byddai'r ymddiriedolaeth yn elwa ar well ymdrechion i ddatblygu hyn.

Mae'r ymddiriedolaeth yn defnyddio rhywfaint o wybodaeth i fonitro ei pherfformiad ond ar y cyfan, mae diffyg strategaeth glir a gwybodaeth annigonol yn ei gwneud yn anodd i ddatblygu system rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer rheolaeth glinigol.

Nid oes strategaeth draws bynciol ar gyfer rheolaeth glinigol a dim ond mewn perthynas â nifer fach o'r saith maes rheolaeth glinigol technegol y gellid nodi strategaethau.

Gwybodaeth bellach

Cynhaliwyd adolygiad rheolaeth glinigol y Comisiwn rhwng Mehefin 2003 a Chwefror 2004.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ganfyddiadau a'r meysydd gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad. Rhoddwyd crynodeb manwl o'r dystiolaeth y seiliwyd y canfyddiadau hyn arni i'r ymddiriedolaeth.

Bydd yr ymddiriedolaeth yn cynhyrchu cynllun gweithredu a fydd ar gael gan:

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Pencadlys yr Ymddiriedolaeth
Ysbyty Stanley EM
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0WA

neu o wefan y Comisiwn. Bydd y modd y bydd yr ymddiriedolaeth yn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith yn cael ei fonitro.

Tîm adolygiad y Comisiwn:
Laila Abraham
Cyfarwyddwr Anweithredol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Essex

Mike Bellamy
Ymgynghorydd Rheoli Annibynnol

Andy Hill
Rheolwr Rhaglen ar y Cyd y Gwasanaethau Brys, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Swydd Lincoln Unedig

Anne Jackson
Rheolwr Perfformiad, Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Durham a Tees Valley

Alex Kafetz
Prif Ddadansoddwr, Comisiwn Gwella Iechyd

John Pullen
Prif Bara meddyg Ambiwlans, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans a Chludiant Iechyd Swydd Lincoln

Janet Ratigan
Uwch Ddadansoddwr, Comisiwn Gwella Iechyd a Phara meddyg, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Essex

Phil Rounce (adolygwr lleyg)
Peiriannydd Sifil Siartredig

Gale Stirling
Rheolwr yr Adolygiad, Comisiwn Gwella Iechyd

Peter Sykes
Cyfarwyddwr Meddygol wedi ymddeol, Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Trafford

Joan Timmins
Cyfarwyddwr Nyrsio wedi ymddeol

Lesley Cave oedd rheolwr adolygiad y Comisiwn

Gwybodaeth bellach *parhad*

Ceir manylion pellach am waith y Comisiwn o:

Commission for Health Improvement
Finsbury Tower
103-105 Bunhill Row
London
EC1Y 8TG

020 7448 9200

www.chi.nhs.uk

Cydnabyddiaethau

Dymuna'r Comisiwn ddiolch i staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, cleifion ac aelodau o'r cyhoedd a roddodd o'u hamser i siarad â thîm yr adolygiad ac a ddarparodd wybodaeth. O fewn yr ymddiriedolaeth, dymuna'r Comisiwn ddiolch yn arbennig i:

Don Page, Prif Weithredwr

Dr Michael Colquhoun, Cyfarwyddwr Meddygol

John Bottell, Cyfarwyddwr Gweithrediadau

David Ellis, Swyddog Ambiwlans Rhanbarthol (cydlynydd yr ymddiriedolaeth)

Dymuna'r Comisiwn ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb y Comisiwn yn unig yw cynnwys yr adroddiad a'r casgliadau.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Y Llyfrfa
02/04 921457 19585